# Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR
PWLLHELI
**Chwefror 2026**

# Diweddariad ar y prosiect

**Atgoffa o'r Weledigaeth...**
Wrth i ni nesáu at gyflwyno ein ceisiadau llawn am gyllid yr haf hwn, rydym yn awyddus i atgoffa pawb o bwrpas, arwyddocad a'r weledigaeth y tu ol i Fenter Y Twr. Nid dim ond adfer hen adeilad yw'r nod, ond yn hytrach creu cyrchfan fywiog a chynaliadwy- yn angor i weithgarwch cymunedol fydd yn cyfrannu at yr economi leol am ddegawdau.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

**Y Weledigaeth**
Yn ddibynnol ar sicrhau cyllid, bydd y trawsnewidiad yn cynnwys:

- Gwesty o safon uchel, gan ddenu ymwelwyr i aros dros nos
- Bar a bwyty croesawgar ar gyfer trigolion ac ymwelwyr
- Mannau hyblyg i gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd amrywiol
- Trawsnewid y stablau yn Unedau Busnes i gefnogi entrepreneuriaid lleol
- Mannau cymunedol i annog cydweithio a gweithgarwch
- Adfer adeilad treftadol ym mhrif dref Llyn, gan baratoi'r ffordd at adfywiad Stryd Fawr Pwllheli.

Dyma gyfle unigryw i roi bywyd newydd i'r adeilad, creu swyddi, cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal a chefnogi busnesau lleol.

**Rydym angen eich barn...**
Rydym am roi cyfle i chi-y buddsoddwyr a'r cefnogwyr sydd wedi galluogi hyn ddigwydd-i gymryd rhan yn y gwaith o sicrhau llwyddiant y prosiect hwn yn y cam nesaf. Byddwn yn dangos i'r Gronfa Dreftadaeth fod ein syniadau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Gofynwn yn garedig i chi dreulio 5 munud yn cwblhau'r arolwg hwn.

**https://www.surveymonkey.com/r/DVSBX37**

**Unedau Busnes- Lansio arolwg pellach yn fuan**
Byddwn yn lansio arolwg byr i fesur y diddordeb mewn llogi Unedau Busnes. Bydd yr ymatebion yn gymorth i siapio'r dyluniad terfynol ac yn cryfhau ein ceisiadau am gyllid.

**Mynegi Diddordeb - Partneriaid Lletygarwch**
Rydym hefyd yn paratoi lansiad dogfen Mynegi Diddordeb fydd yn gwahodd partneriaid posibl ar gyfer elfennau lletygarwch y cynllun. Bydd hyn yn cynnwys cyfleon ar gyfer rhedeg y bwyty, y bar a'r llety. Rydym yn chwilio am bartneriaid profiadol sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n ymrwymiad i ansawdd uchel a budd cymunedol. Cadwch olwg am newyddion am y lansiad yn y wythnosau nesaf.

**Datblygiadau Diweddar:**
Yn y cyfamser wrth i'r gwaith uchod fynd rhagddo, rydym wedi bod yn:

- Datblygu'r dyluniadau mewn manylder.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu a phartneriaeth Menter Y Twr
- Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu i sicrhau mewnbwn pawb i'r cynlluniau.
- Paratoi dogfennau prosiect i gyd-fynd a'r ceisiadau ariannol.

Dyma gyfnod dwys ond cwbl hanfodol er mwyn sicrhau cadernid y prosiect.

**Amserlen y Prosiect:**

- Haf 2026 - Cyflwyno'r ceisiadau llawn am gyllid
- Dechrau 2027 - Disgwyl am y penderfyniad cyllid
- 2027 - Dechrau'r gwaith ar y safle (yn amodol ar gymeradwyaeth)
- 2028 - Blwyddyn darged ar gyfer agor y drysau.

**Cadw'r Momentwm**
Rydym yn benderfynol o barhau i feithrin y diddordeb, y cyffro a'r gefnogaeth ar hyd y daith er mwyn sicrhau adnodd llewyrchus i Bwllheli. Mae cefnogaeth a chyfranogiad cryf gan y gymuned yn allweddol os am wireddu'r weledigaeth a sicrhau llwyddiant. Diolch i'n cyfranddalwyr, ein gwirfoddolwyr a'r holl gefnogwyr am gadw'r ffydd barhaus yn y weledigaeth.




I archebu ticedi
Cliciwch yma!

NEUADD DWYFOR

# Calendr Digwyddiadau

**10 Mawrth 2026 19:30**
Sgwrs am hanes y dref a'r Twr gan John Dilwyn Williams yn Y Twr. £3 wrth y drws

**13 Mawrth 2026 09.30- 15.30**
Caffi Trwsio -
Yn ol y criw "croesewir unrhyw eitem sydd yn ffitio drwy'r drws" (ond nid drwy'r drws ffrynt gyda llaw!) Dewch draw am baned a sgwrs gyda'r criw cyfeillgar hwn, neu dewch a rhywbeth i'w drwsio. ebost: caffitrwsiopwllheli@gmail.com

**19 Mawrth 2026**
Cwis Llanw Llyn. Yn y Twr!

## Cymeryd rhan

Mae croeso cynnes bob amser i unigolion ymuno gyda'r gwahanol grwpiau sydd yn ffurfio Menter y Tŵr . Mae angen syniadau newydd a dulliau byrlymus a phoblogaidd o godi arian. Byddai'n wych cael amrywiaeth o weithgareddau ar galendar yr ardal, wedi cael eu trefnu gan bobl sydd a gwahanol ddiddordebau. Mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol neu e-bostio ytwrpwllheli@gmail.com i drafod eich syniadau neu i wirfoddoli. Diolch o galon.

Criw Y Twr x